BRO MORGANNWG

CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD 2021-2036

# ADOLYGIAD SAFLEOEDD O BWYSIGRWYDD CADWRAETH NATUR

Medi 2024



PAPUR CEFNDIR - BP40

RLDP CDLN

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

@CBroMorgannwg CyngorBroMorgannwg LDP@valeofglamorgan.gov.uk 01446 704681 www.bromorgannwg.gov.uk

## Crynodeb Gweithredol

i. Paratowyd y papur cefndir hwn fel tystiolaeth ategol i Gynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) Bro Morgannwg 2021 - 2036.

ii. Mae Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur (SoBCN) yn safleoedd anstatudol sy'n cael eu dynodi ar lefel leol oherwydd eu pwysigrwydd ar gyfer cadwraeth natur.

iii. Mae Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 12 (Chwefror 2024) (PCC) yn cynghori bod dynodiadau anstatudol fel Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur (SoBCN) yn gwneud cyfraniad hanfodol at ddarparu rhwydwaith ecolegol ar gyfer bioamrywiaeth ac ecosystemau gwydn, a dylid eu diogelu mewn cynlluniau datblygu a'r broses rheoli datblygu. Gall safleoedd anstatudol ffurfio craidd rhwydwaith hanfodol o gynefinoedd dan fygythiad, chwarae rôl hanfodol wrth ddiogelu, cynnal, cysylltu ac adfer bioamrywiaeth, a chyfrannu at adferiad natur a budd net i fioamrywiaeth.

iv. Mae Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Bro Morgannwg 2011 – 2026 a fabwysiadwyd yn cynnwys Polisi MG21 – Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur, Safleoedd Daearegol a Geomorffolegol Pwysig yn Rhanbarthol, a Chynefinoedd a Rhywogaethau â Blaenoriaeth, sy'n ceisio gwarchod ardaloedd gwerth uchel o ran bywyd gwyllt ar lefel leol. Mae'r CDLl a fabwysiadwyd yn nodi 360 o safleoedd SoBCN gydag 11 arall wedi'u dosbarthu fel safleoedd posib neu SoBCN posib h.y. wedi'u cynnig ond heb eu mabwysiadu.

v. Er mwyn sicrhau bod y SoBCN presennol yn cyfrannu'n effeithiol at ddiogelu a gwella bioamrywiaeth ar draws Bro Morgannwg, a bod y polisïau a'r cynigion a ddatblygwyd ar gyfer y CDLIN yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol, ac i gydymffurfio â dyletswydd y Cyngor o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, comisiynwyd adolygiad o'r SoBCN a nodwyd yn y CDLl a fabwysiadwyd yn ogystal â'r SoBCN posib a nodwyd gan y Cyngor.

vi. Amcanion yr adolygiad oedd:
- Arolygu'r holl SoBCN presennol a'r SoBCN posib arfaethedig yn y sir, ac asesu'r amodau cynefin presennol yn erbyn meini prawf SoBCN.
- Darparu adroddiad i Fro Morgannwg sy'n crynhoi canfyddiadau'r gwaith arolwg a'r dynodiadau SoBCN wedi'u diweddaru.

vii. Cynhaliwyd arolygon SoBCN gan yr ymgynghorwyr ecolegol, Soltys Brewster Ecology, a chwblhawyd y gwaith maes angenrheidiol rhwng mis Mehefin a mis Hydref 2023. Cwblhawyd adroddiad yr arolwg terfynol, a baratowyd gan Soltys Brewster, ym mis Chwefror 2024.

viii. Felly, mae'r papur cefndir yn rhoi manylion am adolygiad SoBCN Bro Morgannwg, a nododd gyfanswm o 335 o SoBCN a ystyriwyd gan yr ymgynghorwyr i fodloni'r meini prawf SoBCN lleiafswm.

ix. Yn ogystal â'r adolygiad o SoBCN a SoBCN posib ym Mro Morgannwg, comisiynwyd adroddiad ar wahân gan y Cyngor i ystyried SoBCN Arfordirol.

x. Roedd y Canllaw Safleoedd Bywyd Gwyllt presennol o 1999 wedi rhestru cynefinoedd arfordirol Adran 42 fel rhai sy'n cael eu hystyried i'w dewis heb fawr ddim meini prawf neu ddim o gwbl. Roedd hyn yn golygu nad oedd SoBCN Arfordirol wedi'u hystyried i'w dewis ym Mro Morgannwg nac yn wir ar hyd arfordir Cymru. Felly, dyfarnwyd y comisiwn i JBA Consulting ddiffinio'r meini prawf ar gyfer SoBCN Arfordirol ac i gymhwyso'r meini prawf hynny i arfordir y Fro. Nododd y gwaith hwn 11 SoBCN Arfordirol arall.

RLDP CDLN

**Cyngor Bro Morgannwg**
Cyfarwyddiaeth Lleoedd
Swyddfeydd Dinesig
Heol Holltwn
Y Barri CF63 4RU

LDP@bromorgannwg.gov.uk
www.bromorgannwg.gov.uk

